

# ffilm

CYMRU WALES

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD  
CYNLLUN GWEITHREDU 2018-22

Fel y'i hadolygwyd a'i diwygiwyd,  
Medi 2020

ARIENNIR GAN  
Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED



# CYD-DESTUN

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu sector a diwylliant ffilm cynaliadwy sy'n addas i bawb yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwnnw'n cynnwys ein bod yn gynghreiriad i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, neu sydd wedi profi rhwystrau cymdeithasol i gael eu cynnwys a'u cynrychioli yn sgil pwy ydynt – gan gynnwys eu hil neu ethnigrwydd, eu rhywioldeb neu a ydynt yn ystyried eu bod yn f/Fyddar, bod ganddynt anabledd dysgu, eu bod yn awtistig, neu eu bod yn byw ag anabledd, er enghraifft. Byddwn yn gwerthfawrogi pobl ar sail pwy ydynt fel unigolion; y profiad a'r sgiliau sydd ganddynt ac am ehangder eu dychymyg, eu gweledigaeth a'u dawn i adrodd stori.

Rydym o'r farn fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yn hollbwysig er mwyn i straeon gael eu hadrodd mewn modd trawiadol, ac er mwyn cynnal sector fusnes creadigol, hyfyw. Mae'r dystiolaeth sy'n ategu hyn yn cynyddu, sy'n dangos fod cwmnïau sy'n croesawu CAC yn fwy llwyddiannus yn greadigol ac yn economaidd; yn cynhyrchu cynnwys gwreiddiol ac arloesol; ac yn ymestyn eu cynulleidfaoedd a nifer eu cwsmeriaid. Rydym yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd y swyddogaeth sydd gennym i'w chwarae fel buddsoddwr, fel asiantaeth ddatblygu ac fel eiriolwr ar ran unigolion a chwmnïau a aned neu sydd wedi eu lleoli yng Nghymru sy'n awyddus i fod, neu sy'n ceisio bod, yn rhan o'r sector ffilm, ac i alluogi cynulleidfaoedd ledled Cymru i gael mynediad at gynnwys o bob math. Rydym yn ymwybodol fod rhwystrau'n bodoli o ran diwydiant ffilm sy'n gydradd, yn amrywiol ac yn gynhwysol.

Oherwydd hyn rydym wedi cyflwyno Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad er mwyn arwain ein gweithgareddau ein hunain a gweithgareddau'r rhai sy'n derbyn arian gennym.

Mae'r cynllun yn dangos ein hymrwymiad i dryloywder, ac yn adlewyrchu ein barn fod rhannu data, gwybodaeth a rhwydweithiau yn werthfawr.



Mae ein Cynllun CAC yn cydymffurfio gyda'n Cynllun Strategaeth ar gyfer 2018-2022, yn ogystal â'n Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cod Ymddygiad. Mae'n ymgorffori ein cyfrifoldebau fel un o gynrychiolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI. Rydym hefyd wedi ystyried yr ymgynghoriadau mae Ffilm Cymru wedi eu cynnal gydag arbenigwyr yn y maes, yn ogystal â gyda'n rhanddeiliaid ein hunain; arolwg o'n gweithgareddau cyfredol a'r data EDI sydd gennym eisoes; y cyd-destun deddfwriaethol ehangach, ac yn fwyaf penodol, y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethau yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach (Gweler atodiad 1), a Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

## DIFFINIADAU A THERMINOLEG

Ystyr Cydraddoldeb, yn syml, yw tegwch i bawb. Nid trin pawb yr un fath, ond sicrhau fod neb dan anfantais oherwydd unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Defnyddir y gair Amrywiaeth i ddisgrifio'r ffaith fod pawb yn wahanol ac y dylid parchu, cydnabod a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau sy'n bodoli. Golyga Cynhwysiad ein bod yn defnyddio dull ac arfer sy'n dod â phobl ynghyd oddi mewn i amgylchedd y diwydiannau creadigol, boed rheiny'n wneuthurwyr ffilm, yn sefydliadau ffilm, yn gynulleidfaoedd neu'n gymunedau. Mae cydraddoldeb, felly, yn ymwneud â dymchwel rhwystrau, amrywiaeth yn ymwneud ag adnabod pobl, a bwriad cynhwysiad yw darparu'r amodau cywir i bobl fedru ymglyfranogi o'r diwydiant a'r diwylliant ffilm ym mha bynnag ffordd sydd orau ganddynt.

Mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau a natur leihaol terminoleg, sy'n lluniad cymdeithasol, ond hefyd y gwerth sydd i fesur er mwyn asesu ac unioni unrhyw dangynrychiolaeth mewn ffordd dryloyw. Mae dwy agwedd bwysig i dynnu sylw atynt yn ein dull CAC:

1. Bod unrhyw derm yn llai na'r person y mae'n eu disgrifio. Nid bwriad terminoleg yw gwahardd hunanbenderfyniaeth neu gynildeb hunan-nodi, gan gynnwys rhyngblethedd. Byddwn yn cyfathrebu hyn, ac
2. Fel rhan o'n hymagwedd #DimAmdanomNiHebomNi, bwriadwn barhau i arolygu ac addasu iaith, fel rhan o ymagwedd adolygu a chyd-ddylunio ehangach gyda phartneriaid a all gynnig eu profiad go iawn hwy. Byddai unrhyw newidiadau fel arfer yn cael eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol newydd, fel bod gennym setiau data llawn a chymaradwy, oni bai bod rheswm da dros addasu yn ystod y flwyddyn.

Gan ddefnyddio'r sail resymegol hon, rydym wedi gwneud yr addasiad hwn yn ystod y flwyddyn:

Newid y term 'anabl/anabledd' gan ei ehangu i 'b/Byddar, ag anabledd dysgu, awtistig neu'n byw ag anabledd' ac yn ein holl ohebiaeth yn ymwneud â hyn byddwn yn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn cydnabod y model cymdeithasol o anabledd, sy'n dweud "bod pobl yn anabl yn sgil rhwystrau mewn cymdeithas, nid yn sgil eu nam neu wahaniaeth." (gweler 'Cwmpas' yn y cyfeirnodau yn yr Atodiad).

## CWMPAS

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i holl aelodau Bwrdd a staff Ffilm Cymru Wales wrth iddynt ddatblygu a gweithredu ein blaenoriaethau strategol a'r ymyriadau canlynol, gan gynnwys penderfyniadau ariannu, goblygiadau cytundebol a'r arferion gwaith rydym yn eu hyrwyddo. Mae'r gwerthoedd a ddisgrifir yn y cynllun hwn yn darparu fframwaith i'n gwaith partneriaeth – gan gynnwys wrth weithio gydag unigolion a sefydliadau sy'n defnyddio helaethder eu profiad go iawn i adolygu, herio a chynnig dealltwriaeth ac argymhellion o newidiadau.

Mae hefyd yn berthnasol i'r rheiny byddwn yn buddsoddi ynddynt – o arddangoswyr i ymarferwyr addysg, gwneuthurwyr a dosbarthwyr ffilm i ddarparwyr diwylliant cymunedol. Rydym yn gofyn i bawb sy'n derbyn arian gennym i gefnogi egwyddorion y cynllun hwn, ac i lunio a rhannu eu syniadau eu hunain ynglŷn â sut mae posib iddynt wella EDI yn eu gwaith.

Byddwn yn derbyn ac yn gweithredu'r adborth a'r wybodaeth a dderbyniwn am effeithiau'r cynllun hwn yn rheolaidd, ynghyd â'r ddeialog barhaus gyda phartneriaid ac unigolion sy'n rhannu eu profiad go iawn a'u hargymhellion. O'r herwydd, gellir ystyried y cynllun gweithredu hwn yn 'ddogfen fyw' a fydd yn parhau i gael ei haddasu.

# EIN Ffordd o Weithio

Yn bwysig, ar ôl adolygu a myfyrio mwy yn ystod 2020, rydym eisiau ymgorffori egwyddor #DimBydAmdanomNiHebomNi sydd wedi'i mabwysiadu mor bwerus gan rwydweithiau b/Byddar ac anabl, gan ei chymhwyso at ein hymagwedd CAC, ar draws Nodweddion Gwarchodedig, anfantais economaidd -gymdeithasol, a'r Iaith Gymraeg. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

1. mynd yn bellach ymhlith aelodaeth ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol i ehangu cynrychiolaeth a phrofiad go iawn yn ein sefydliad ac ar bob lefel;
2. datblygu a gweithredu dull systematig o gyd-ddylunio, adolygu, herio ac addasu ein hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel ein bod yn gweithio ochr yn ochr â phobl sydd â helaethder o brofiad go iawn a all lywio'r gwaith yn uniongyrchol;
3. gwerthfawrogi'r amser a roddir a'r profiad go iawn a rennir. Bydd unigolion a rhai mewn cwmnïau micro neu fach bob amser yn cael cynnig tâl cydnabyddiaeth am waith a wneir, yn ychwanegol at dreuliau;
4. sicrhau y caiff buddsoddiad ei gymhwyso ar draws cymdeithas – fel bod buddiolwyr y cyllid yn adlewyrchu ehangder llawn y talent a'r cymunedau a wasanaethwn ac y caiff hyn ei gipio yn yr hyn yr ydym ni a'r rhai a gyllidwn yn ei fesur a'i adrodd;
5. cyfathrebu, mewn ffordd gwbl hygyrch, ehangder yr hyn a gynigir a'r rhai sy'n elwa o gyllid Ffilm Cymru – nid mewn ffordd berfformiadol, ond at ddiben dathlu a rhannu ymarfer sy'n ysbrydoli, a bod yn gwbl dryloyw ac atebol am ein gweithredoedd.

# Y MANYLION

Bydd ein Cynllun Gweithredu CAC 2018-2022 yn canolbwyntio ar y nodweddion canlynol:

- Cenedl / Rhyw
- Rhywioldeb
- Pobl f/Fyddar, pobl sydd ag anabledd dysgu a/neu bobl awtistig a phobl sy'n byw ag anabledd
- Oed
- Hil ac Ethnigrwydd
- Statws economaidd-gymdeithasol
- Yr Iaith Gymraeg

Fel cronfa gymharol fechan, rydym yn cydnabod y gall pob dyfarniad gael effaith arwyddocaol ar ein hystadegau cyffredinol ar gyfer pob nodwedd. Fel sefydliad ar gyfer Cymru gyfan, rydym hefyd yn ymwybodol y gall canolbwyntio ar un maes gael effaith negyddol anfwriadol mewn meysydd eraill. Gweithio i gynyddu'r nifer o geisiadau ddaw o Ogledd Cymru, er enghraifft, lle bu lefelau cymharol isel o fewnfudo a ble mae rhagor o siaradwyr Gymraeg yn byw, yn sicr o effeithio ar yr ystadegau fydd ar gael ar gyfer y meysydd eraill sy'n cael blaenoriaeth, megis hil ac ethnigrwydd.

Mae'n bwysig cadw'r cymhlethdod hwn mewn cof wrth gydbwysu amcanion a dehongli data. Ble fyddwn yn gweithio ochr yn ochr ag arianwr arall sydd â pholisi amrywiaeth gweithredol, fel y BFI, byddwn yn gweithio'n gyson â nhw i wneud y gorau o werth CAC yng nghyd-destun Cymru.

Mae gosod targedau'n ddefnyddiol i'n hatgoffa o'r camau sy'n rhaid eu cymryd, ond cofier mai un cam yn unig yw hwn wrth geisio newid diwylliant y diwydiant a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad cymdeithasol.

Felly bydd y camau a gymerwn i gefnogi CAC ar gyfer y 7 nodwedd a amlinellir gennym yn amrywio o:

- **Ymyriadau Uniongyrchol** - byddwn yn gosod targedau ar gyfer yr arian y byddwn yn ei roi sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi; byddwn gweithio gyda sefydliadau partner ac unigolion sydd ag ehangder perthnasol o brofiad go iawn i wella ein dealltwriaeth, ein gweithredoedd a'n cyrhaeddiad; byddwn yn cynnal gwaith allanol / estyn allan uniongyrchol, yn cynnig rhaglenni hyfforddiant a / neu ddigwyddiadau – gyda phartneriaid cynrychioliadol – a byddwn yn llunio mentrau ariannu penodol petai bylchau amlwg yn codi o ran cynrychiolaeth yn ein ffrydiau ariannu; byddwn yn gosod anghenion cytundebol fel monitro'r amrywiaeth ar gyfer talent 'uwchben-y-llinell' a'r criw ategol; bydd angen i ni greu deunyddiau mynediad i bobl anabl fel un o ofynion arian cynhyrchu; byddwn yn gofyn i bawb sy'n derbyn arian gennym i ddangos tystiolaeth o'u cod ymddygiad (a byddwn yn darparu cod 'label gwyn' i hwyluso hynny) er mwyn mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu yn y diwydiant.
- **Hwyluso** - byddwn yn cynnwys ac yn rhoi cyhoeddusrwydd clir i ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer costau mynediad (megis costau cyfieithu, addasiadau anabledd, gofal a chludiant) yn ein templedi cyllideb; byddwn yn darparu bwrsariaethau mynediad ar gyfer digwyddiadau hyfforddi byddwn yn eu cyflwyno'n uniongyrchol; byddwn yn cynhyrchu adnoddau i gynorthwyo pawb sy'n derbyn arian gennym a'r diwydiant yn ehangach; bydd gofyn i'r rhai sy'n derbyn arian gennym i ddatblygu cynlluniau gweithredu CAC sy'n talu sylw i gynrychiolaeth ar y sgrin, criwiau a strategaethau cynulleidfa sy'n cefnogi ymagwedd fwy cynhwysol; byddwn yn darparu fframwaith i unigolion i gynnig mentoriaeth a / neu gefnogaeth i dalent newydd a thalent sy'n ymddangos; byddwn yn cyflogi staff dwyieithog ac yn cyfathrebu'n ddwyieithog a hygyrch.
- **Cyngor** - byddwn yn annog pawb sy'n derbyn arian gennym i ystyried ac i ddysgu rhagor am werth amrywiaeth yn y ffyrdd canlynol: byddwn yn cyhoeddi ein data CAC yn flynyddol; byddwn yn annog pawb i fabwysiadu arferion cynhwysol megis castio agored; byddwn yn argymhell sefydliadau lleol perthnasol i gefnogi dilysrwydd prosiectau wrth eu datblygu a'u cynhyrchu os ydynt yn berchen ar thema CAC benodol (fel iechyd meddwl); byddwn yn canolbwyntio mwy ar gyd-weithio mewn partneriaeth ag arianwyr sydd â pholisïau amrywiaeth gweithredol er mwyn gwneud y gorau o werth CAC yng nghyd-destun Cymru, a byddwn yn casglu a rhannu astudiaethau achos sy'n ysbrydoli arfer da.

Yn anad dim, byddwn yn parhau i fod yn agored i dderbyn mewnbwn a chyngor gan bawb sy'n derbyn arian gennym, partneriaid – yn arbennig y rhai sydd ag ehangder o brofiad go iawn – a'r gymuned ehangach, er mwyn annog diwylliant sy'n barod i wrando er mwyn creu diwydiant a diwylliant ffilm gyfartal, amrywiol a chynhwysol yng Nghymru.

## TARGEDAU

Rydym wedi gosod y targedau canlynol ar gyfer pob blwyddyn o 2018-19 hyd 2020-21, ar gyfer ein holl weithgareddau, yn sgil data'r cyfrifiad ar gyfer Cymru:

- **50% o unigolion sy'n ystyried eu hunain fenywod**
- **7% o unigolion sy'n ystyried eu hunain yn f/Fyddar, ag anabledd dysgu a/neu'n awtistig neu'n byw ag anabledd**
- **5% o unigolion sy'n ystyried eu hunain yn Bobl Dduon, Asiaidd neu'n lleiafrif ethnig**
- **10% o unigolion sy'n ystyried eu hunain yn lgbtqi**
- **19% o unigolion sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg**
- **15% o unigolion a oedd neu sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol**

I'r holl gategoriâu uchod, bob blwyddyn ariannol, mae'r ganran hon yn berthnasol i:

- Targed 1: % o awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr a gynorthwywn ag arian datblygu a chynhyrchu
- Targed 2: % o bersonél cwmnïau neu brosiectau a gynorthwywn
- Targed 3: % o gyfranogwyr mewn hyfforddiant a digwyddiadau a gynhaliwn
- Targed 4: % o gynrychiolaeth arbenigol mewn hyfforddiant a gynhaliwn
- Targed 5: % o gyfranogwyr mewn prosiectau a gynorthwywn.

Wrth wneud penderfyniadau ariannu, bydd Ffilm Cymru yn asesu cynrychiolaeth ar-sgrin pob prosiect mewn modd rhagweithiol, ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cynnwys yn yr iaith Gymraeg (fel sy'n cael ei amlinellu yn ein Cynllun Iaith Gymraeg).



Yn bwysig, y mae'r Cyfrifiad nesaf i'w gynnal ar 21ain Mawrth 2021. Y mae disgwyl iddo ddarparu rhai newidiadau sylweddol yn y data, yn dilyn adborth o'u hymgyngoriad a lywiodd pa gwestiynau y maent yn eu gofyn a sut y'u gofynnir, yn ogystal ag adlewyrchu newidiadau yng nghyfansoddiad y gymdeithas. Er enghraifft, rhagwelir cwestiynau wedi'u datblygu o'r newydd ynglŷn â hunaniaeth rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol ac mewn perthynas ag ethnigrwydd, cenedligrwydd, crefydd ac iaith. Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein targedau yn unol â data diweddaraf y Cyfrifiad, ond yn y cyfamser – gan nodi nad oes disgwyl i ddata 2021 gael ei gyhoeddi tan fis Mawrth 2023 – byddwn yn parhau i gasglu data yn y meysydd hyn, gydag opsiynau 'gwell gennyf beidio â dweud', fel sy'n ofynnol yn y gyfraith.

Byddai unrhyw newid % i'r targed yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd/dechrau blwyddyn i sicrhau set o ddata y mae modd ei chymharu.



# BUDDSODDIAD

Mae buddsoddi, eirioli a gweithredu fel asiantaeth ddatblygu yn dair swyddogaeth y mae Ffilm Cymru Wales yn gyfrifol amdanynt, y tair yn gorgyffwrdd, sydd â'r nod o wella cynnydd. Ein hymrwymiad yn y maes hwn yw sicrhau bod CAC yn cael lle canolog ar draws ein holl ffrydiau ariannu, ond mae cynlluniau ariannol CAC penodol ar gael, pan mae adnoddau'n caniatáu hynny, a phan awgrymir bod tan-gynrychiolaeth yn bodoli. Mae ceisiadau am arian a dyfarniadau'n cael eu monitro, ac rydym yn disgwyl i bobl o bob un o'r 7 nodwedd gael eu cynrychioli'n ddigonol ar draws ein llechen, o'u cymharu â nodweddion poblogaeth Cymru'n gyffredinol.

## CANLYNIAD CAC 1:

**Mae ein buddsoddiad yn cynrychioli y meysydd fydd yn cael blaenoriaeth, o ran CAC ac amrywiaeth yng Nghymru.**

### **Sut byddwn ni'n gwireddu hyn?**

- Gosod targedau ar gyfer ein dyfarniadau ariannol, a gwneud hyn yn glir i'r holl staff;
- gwella amrywiaeth y sawl sy'n ymwneud â gwneud a llywio penderfyniadau ariannu;
- hyfforddi'r holl staff sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ariannol ym maes amrywiaeth a rhagfarn ddiarwybod;
- sicrhau bod ein prosesau ariannu yn glir ac yn hygyrch;
- casglu data CAC ar yr holl geisiadau am arian a'r prosiectau sy'n cael eu cefnogi, a monitro yn erbyn targedau;
- sicrhau bod yr holl staff yn llwyr ymwybodol eu bod yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bobl yn eu gwaith o ddydd i ddydd – er enghraifft, wrth drefnu cyfarfodydd mewn gwyliau, marchnadoedd, cynadleddau neu mewn digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â'r diwydiant, neu wrth drefnu siaradwyr ar gyfer digwyddiadau;
- cyhoeddi ein hamcanion a'n targedau CAC ac enghreifftiau / astudiaethau achos sy'n ysbrydoli fel bod disgwyliadau a gofynion yn glir ac yn cael eu cefnogi, gan gynnwys ffyrdd o asesu yn erbyn yr amcanion yma, pan fo hynny'n berthnasol i feini prawf ariannu;

- parhau i wella'r gwaith o fonitro, o gasglu data ac o ddadansoddi er mwyn adnabod y bylchau a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn y meysydd sy'n cael blaenoriaeth gennym;
- adolygu'r data sy'n ymwneud â cheisiadau a phenderfyniadau ariannu i sicrhau ein bod yn parhau i wella yn erbyn ein targedau CAC;
- gofyn i bawb sy'n derbyn arian gennym i ddatblygu Cynllun Gweithredu CAC - byddwn yn eu cefnogi drwy ddarparu templedi ac adnoddau, ac yna'n eu defnyddio ar gyfer y gwaith o asesu;
- annog y bydd y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer sicrhau mynediad, megis costau gofal, yn cael eu cynnwys yn y ceisiadau am arian (eitemau i'w cynnwys mewn templedi ar gyfer cyllidebau a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt, yn ogystal ag enghreifftiau sy'n ysbrydoli);
- parhau i ofyn am greu deunyddiau sy'n ymwneud â mynediad i'r anabl; cyfrannu tuag at dreth Skillset Creadigol; penodi pobl dan hyfforddiant, fel amod o dderbyn arian cynhyrchu;
- parhau i ofyn am benodi pobl dan hyfforddiant fel amod o dderbyn arian cynhyrchu, gan nodi y bydd y bobl dan hyfforddiant sydd wedi eu lleoli yng Nghymru yn cael blaenoriaeth ar y cynyrchiadau sy'n cael eu ffilmio yng Nghymru.;
- parhau i sicrhau fod yr holl gyhoeddiadau ariannu, y ffurflenni cais a'r canllawiau ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg, bod gennym siaradwyr Cymraeg ar ein staff, a bod ein tîm cyfan wedi ymrwymo i weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg;

### **Cysylltiadau a'n cynllun strategol**

- Mae CAC yn thema sydd i'w gweld ar draws ein Cynllun Strategol 2018-22.

### **Tryloywder a mesur cynnydd**

- Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau ariannu a'n dadansoddiadau yn erbyn y meysydd fydd yn cael blaenoriaeth gennym o ran CAC, gan gynnwys cymharu â'r meini prawf sydd ar gael ar gyfer 2017-2018.
- Rhannu astudiaethau achos yn rheolaidd sy'n dangos arfer da a'r cyfan sy'n cael ei ddysgu ar draws y sector.

## Camau gweithredu cyfrannol ychwanegol

- Cynyddu ein gwaith gyda sefydliadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb ac annog yr arfer o weithio mewn partneriaeth â hwy.
- Sicrhau bod ein gwaith marchnata a chyfathrebu'n dathlu CAC ar draws ein holl ffrydiau ariannu, wrth gynhyrchu unrhyw waith cyfathrebu sy'n ymwneud â CAC a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â CAC yn benodol.

# YMGYSYLLTU & CHYFRANOGI

Mae manteision cadarnhaol i'w gweld ar iechyd a lles wrth fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau a'r sgrin, o wyllo ffilmiau mewn lleoliadau cymdeithasol i gael cyfleoedd i fynegi eich hunan yn greadigol drwy gyfrwng ffilm, ac mae hefyd yn gwella cydlynid cymdeithasol ac yn lleihau unigedd. Yn ogystal â buddsoddi yn y ddarpariaeth drwy gyfrwng ymarferwyr addysg ffilm ac arddangoswyr ffilm, fel canolfannau sinema / lleoliadau celfyddydau cymysg, gwyliau a digwyddiadau unigol yn y gymuned, mae Ffilm Cymru Wales hefyd yn cynnal digwyddiadau eu hunain, yn dangos ffilmiau a'n cynnig hyfforddiant mewn ardaloedd sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Ein hymrwymiad yn y maes hwn yw sicrhau fod CAC yn ystyriaeth allweddol yn y digwyddiadau a'r rhaglenni hyfforddi rydym ni'n eu cynnal yn uniongyrchol, tra hefyd yn gofyn am ac annog y meddylfryd hwn ym mysg y rhai sy'n derbyn arian gennym. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau ac ar gyrsiau hyfforddi'n cael ei fonitro, a disgwyliwn i bobl o'r 7 nodwedd gael eu cynrychioli'n ddigonol o'u cymharu â nodweddion poblogaeth gyffredinol Cymru.

## CANLYNIAD CAC 2 :

**Mae'r cyfleoedd i ymgysylltu a chymryd rhan yn y diwydiant ffilm yng Nghymru yn gynhwysol a hygyrch.**



## **Sut byddwn ni'n gwireddu hyn?**

- Gosod targedau ar gyfer cyfranogiad a chyflogi gweithwyr llawrydd â thâl sy'n cynnig dealltwriaeth o'u hehangder o brofiad go iawn ar gyfer ein digwyddiadau a'n gweithgareddau hyfforddi, a sicrhau bod yr holl staff yn gwybod amdanynt;
- Gwella monitro, casglu data a dadansoddi mynychwyr digwyddiadau a gweithgareddau hyfforddi Ffilm Cymru Wales, a'u monitro yn erbyn targedau;
- Datblygu Prawf Pwysau CAC y dylid ei gwblhau wrth gynllunio pob digwyddiad neu raglen hyfforddi Ffilm Cymru Wales ble fyddwn yn gwerthuso siaradwyr, arbenigwyr, lleoliadau ac ystyriaethau mynediad eraill, yn ogystal â dulliau marchnata a hyrwyddo;
- Rhoi'r dewis i gyfranogwyr gael darpariaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg a BSL neu ffrydio testun ym mhob gweithgaredd a digwyddiad hyfforddi;
- Cynnig bwrsariaethau i unigolion nad allant fforddio costau teithio/gofalu/mynediad neu gostau eraill sy'n gysylltiedig â hyfforddiant neu ddigwyddiadau;
- Gweithio'n agos gyda chyd-weithwyr a rhanddeiliad eraill i rannu'r arfer orau, pecynnau cymorth ac adnoddau;
- Cynorthwyo grwpiau cymheiriaid i unioni tangynrychiolaeth (e.e. SHIFFT – grŵp o fenywod sy'n creu ffilmiau, academi Hijinx o actorion niwrowahanol, comisiynu pecyn cymorth ymgysylltu ar Anabledd);
- Cefnogi'r arfer o gynhyrchu adnoddau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth (megis pecynnau cymorth i gynorthwyo ymgysylltu ag artistiaid a chynulleidfaedd sy'n byw ag anabledd, sy'n f/Fyddar, ag anabledd dysgu a/ neu sy'n awtistig);
- Annog y rhai rydym yn eu hariannu i greu partneriaethau;
- Gofyn i bawb sy'n derbyn arian cynhyrchu ac arian ar gyfer creu ffilm fer i ddatblygu Cynllun Cynulleidfa CAC. Byddwn yn eu cefnogi drwy ddarparu templedi ac adnoddau;
- Cefnogi'r rhai sy'n derbyn arian gennym ar gyfer arddangos ffilm, addysg ffilm a rhwydwaith ffilm i fonitro eu cynulleidfaedd a chyfranogiad yn erbyn y meysydd CAC sy'n cael blaenoriaeth gennym.

## **Cysylltiadau a'n cynllun strategol**

- Mae CAC yn berthnasol i bob agwedd o'n Cynllun Strategol ar gyfer 2018-22, sy'n cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi cynllun strategol llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2018, gan gynnwys y themâu a'r mesurau a nodwyd yn y cynllun CAC hwn.

## **Mesur cynnydd**

- Byddwn yn gwerthuso cyfranogiad a data cynulleidfa a gasglwn yn sgil ein digwyddiadau uniongyrchol, ac oddi wrth y rhai sy'n derbyn arian gennym, gan ychwanegu at a mireinio data wrth i arferion casglu a phrosesau wella. Sicrhau bod ein marchnata a'n cyfathrebiadau yn dathlu CAC ar draws ein holl ffrydiau ariannu, yn y broses o gynhyrchu cyfathrebu CAC a rhai nad ydynt yn ymwneud ag CAC.

## **Camau gweithredu cyfrannol ychwanegol**

- Cefnogi partneriaethau rhwng sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ffilm a chydraddoldeb
- Cynorthwyo sefydliadau ffilm i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd, gan gynnwys datblygu talent pobl sydd â nodweddion wedi'u diogelu.
- Gweithio'n gyson â'n cyd-arianwyr yng nghyswllt polisiâu amrywiaeth er mwyn sicrhau'r gwerth CAC gorau posib yng nghyd-destun Cymru.
- Sicrhau bod ein holl waith marchnata a chyfathrebu'n dathlu CAC ar draws pob un o'n ffrydiau ariannu, wrth gynhyrchu cysylltiadau sy'n ymwneud yn benodol ag CAC a'r rhai hynny nad ydynt yn ymwneud ag CAC.

# GWEITHLE

Gwyddom o'r llu adroddiadau sydd ar gael erbyn hyn, o ffynonellau Prydeinig, ffynonellau rhyngwladol ac o ddata uniongyrchol, bod angen mynd i'r afael â rhai materion hollbwysig o ran cyfansoddiad gweithluoedd y diwydiannau celfyddydol, sgrin a chreadigol. Mae hyn wedi'i amlygu ymhellach ers dyfodiad pandemig Covid-19, wrth i hyd at ddau draean o'r gweithlu sgrin fethu â chael mynediad at unrhyw gymorth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan ddangos natur ariannol fregus yr arfer o symud rhwng statws llawrydd a PAYE i unigolion. Drwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi eirioli dros gymorth i'r gweithlu hwn, gan gynnwys i Lywodraeth Cymru sydd, yn dilyn hynny, wedi datblygu cronfa gymorth o £7m i unigolion. Fodd bynnag, cymorth dros dro yn unig y gall hyn fod ac rydym yn ymrwymedig i ddatblygiadau parhaus i ddulliau'r sector sy'n gwella cadernid a sicrwydd y gweithlu ehangach. Yn 2020-21 bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda thasgluoedd sector y BFI a Chymru Greadigol ar 'ddyfodol gwaith', contractau diwylliannol ac ymaddasu yn y tymor canolog i'r tymor hir yn sgil Covid-19.

Mae Ffilm Cymru Wales yn cefnogi sefydliadau sy'n cyflogi a'n rhoi gwaith rheolaidd i weithwyr llawrydd a chriw mawr. Ein hymrwymiad yn y maes hwn yw annog cwmnïau yng Nghymru i weithio'n galed i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yn eu prosesau recriwtio a hurio, ac yn eu harferion gwaith o ddydd i ddydd, a byddwn ni'n gwneud yr un modd gyda'n prosesau recriwtio a hurio ein hunain.

Byddwn hefyd yn parhau i eirioli dros wella'r modd y cesglir data sy'n ymwneud â'r gweithlu – mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru, y DCMS, y BFI, Creative Skillset, CCC ac eraill, a byddwn yn cyhoeddi data sy'n ymwneud â'r gweithlu er mwyn annog yr arfer orau. Yn benodol, yn 2020, nodwn waith Prifysgol De Cymru a Chlwstwr yn ymchwilio a chyhoeddi data ar anghenion a darpariaeth hyfforddiant ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roeddem yn aelod gweithgar o'r grŵp cynghori, ac yn cynorthwyo i ddatblygu'r gwaith hwn, ymgymryd ag ef a'i gyfathrebu, a byddwn yn eirioli iddo gael ei adlewyrchu ledled gweddill Cymru.

## CANLYNIAD CAC 3:

**Mae gweithwyr y sector ffilm yng Nghymru yn adlewyrchu ein nodweddion CAC ac amrywiaeth Cymru.**

### **Sut byddwn ni'n gwireddu hyn?**

- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau sy'n ysbrydoli;
- Annog pawb sy'n derbyn arian gennym i ddangos arferion recriwtio eang a monitro data CAC y rhai sy'n ymgeisio am swyddi (boed yn staff / criw / llawrydd) yn ogystal â chlyweliadau;
- Gofyn i bob cwmni sy'n derbyn arian gennym i gynnwys CAC personél eu cwmni neu gynhyrchiad ffilm fel rhan o'u hadroddiad terfynol, a defnyddio data i hysbysu asesiadau effaith CAC;
- Annog pob cwmni sy'n derbyn arian gennym i fabwysiadu arferion cynhwysol, fel castio agored;
- Gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliad i adnabod a rhannu rhwystrau a dulliau cymorth i gael mynediad i'r diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru, ac i ddatblygu gyrfa yn y diwydiant;
- Annog y bydd cyfleoedd i sicrhau cyflogaeth yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cael eu hysbysebu'n eang ac i gynnig cyfleoedd tendro â thâl;
- Gweithio'n agos â phartneriaid i ddatblygu a / neu eirioli ar ran cronfa ddata o weithwyr dan hyfforddiant yng Nghymru, a thynnu sylw'r cwmnïau a'r cynyrchiadau sy'n derbyn arian ato;
- Parhau i ddatblygu a chyflenwi rhaglen hyfforddiant sydd wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer unigolion sydd wedi'u hamddifadu'n economaidd-gymdeithasol yng Nghymru – ein rhaglen arloesol Troed yn y Drws, gan gynnwys camau sy'n cynorthwyo cwmnïau cynhyrchu i wella eu dulliau recriwtio a datblygu'r gweithlu.

### **Cysylltiadau a'n cynllun strategol**

- Mae Cydraddoldeb yn thema sy'n gyffredin i'n holl Gynllun Strategol 2018-22 (gweler uchod).



## Mesur cynnydd

- Byddwn yn casglu data sylfaenol yn sgil yr adroddiadau terfynol ddaw gan bawb sy'n derbyn arian gennym, a byddwn yn ei ddefnyddio fel sail i ddatblygu ac addasu blaenoriaethau a thargedau yn y dyfodol. Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r data a gasglwn o ganlyniad i arolygon ar rwystrau ac ar griwiau cynhyrchu ffilm, ar yr amod bod data digonol ar gael / wedi ei ddarparu.

## Camau gweithredu cyfrannol ychwanegol

- Eirioli ar ran sicrhau gwell ffordd o gasglu data ar y gweithle – mewn cydweithrediad â llywodraeth Cymru, y DCMS, y BFI, Creative Skillset, CCC ac eraill.



# ADOLYGU, CYD-DDYLUNIO AC ADDASU YN BARHAUS

Addasiad sylweddol i'n hymagwedd at CAC yn 2020-21 ac ymlaen yw ein hymrwymiad i adolygu a chyd-ddylunio mesurau CAC gyda phobl sydd â phrofiad go iawn yn y meysydd yr ydym yn bwriadu eu hunioni a'u cynorthwyo. Bydd hyn yn cynnwys:

- Mwy o bwyslais, drwy gydol y flwyddyn, ar weithio mewn partneriaeth ag unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad go iawn ar draws yr amryw Nodweddion Gwarchoddedig, yn ogystal â'r Iaith Gymraeg a phrofiad o anfantais economaidd-gymdeithasol;
- Byddwn yn comisiynu cyngor annibynnol ar anghydraddoldeb a all ddwyn ynghyd ymchwil helaeth yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ar arferion gorau CAC er mwyn adolygu a chynnig argymhellion a phryfociadau, yn allweddol gan gydweithio â lleisiau cynrychioliadol a all lywio, cwestiynu ac eirioli dros y newidiadau y maent eisiau eu gweld.

Yn y pen draw, mae gan Fwrdd Ffilm Cymru y cyfrifoldeb i gymeradwyo'r strategaethau a ddilynwn a'r ymyriadau a wnawn. Y mae'n hollbwysig felly bod y Bwrdd ei hun yn gwbl gynrychioliadol o'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â hyn yn ystod 2020-21 drwy wneud penodiadau pellach; drwy gyflwyno tâl cydnabyddiaeth i sicrhau na chaiff neb eu rhwystro rhag cyfranogi a rhannu eu profiadau; a thrwy sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd (yn ogystal â'r tîm gweithredol) yn derbyn hyfforddiant rhagfarn ddjarwybod.

Bydd bwrdd Ffilm Cymru Wales yn arolygu cynnydd mewn perthynas â'r cynllun EDI hwn yn chwarterol.

Byddwn yn cyhoeddi trosolwg blynyddol yn ogystal â rhannu arferion gorau, astudiaethau achos, pecynnau cymorth ac adnoddau, fel a nodir uchod.



Rydym yn gwerthfawrogi mewnbwn gan y sector a'r cyhoedd, ac yn croesawu unigolion neu sefydliadau i gysylltu â ni i'n cynorthwyo i wireddu ein huchelgais yng nghyd-destun CAC.

Mae sawl ffordd o wneud hyn:

- Gyrrwch eich awgrymiadau neu'ch sylwadau at Ffilm Cymru Wales, tramshed tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH neu at [enquiries@ffilmcymruwales.com](mailto:enquiries@ffilmcymruwales.com) gan gynnwys 'CAC' fel pennawd yn y blwch 'penawd pwnc'.
- Gyrrwch e-bost at [kimberley@ffilmcymruwales.com](mailto:kimberley@ffilmcymruwales.com) er mwyn trafod partneriaethau posib sy'n hyrwyddo CAC yng Nghymru ac ar gyfer Cymru.
- Gweithredu fel Llysgennad i Ffilm Cymru (byddwch yn derbyn tâl cydnabyddiaeth): Mynegwch eich diddordeb mewn cefnogi unrhyw waith allanol, drwy fentora neu drwy gynnig profiad gwaith ymarferol, i dalent newydd neu i dalent sy'n dod i'r amlwg yn un o'n nodweddion CAC.



# ATODIAD

## **GWYBODAETH SYLFAENOL A DEALLTWRIAETH O GYDRADDOLDEB**

Bydd yr adroddiadau canlynol yn rhoi cyd-destun ehangach i'r ddogfen hon:

[Adolygu a datblygu data'r Cyfrifiad:](#)

[Amrywiaeth yn y Gweithlu yn Sector Sgrîn y DU.](#)

[Ail-sgwennu'r Sgript](#) – Adroddiad am Amrywiaeth mewn Ffilm a Theledu gan Diverse Cymru

[Y Model Cymdeithasol o Anabledd fel a ddisgrifir gan Scope, yr elusen cydraddoldeb anabledd yng Nghymru a Lloegr.](#)

[Deall Amrywiaeth yn y Celfyddydau](#) – Creative Scotland

[Calling the Shots: menywod a'r diwylliant ffilm cyfoes yn y DU 2000 – 2015](#)

[Cynghrair Hil Cymru](#)

[BFI Filmography](#)

[Actorion Du yn Niwydiant Ffilm y DU](#) – Ymchwil y BFI

[Making it Possible: Lleisiau rhieni a gofalwyr yn niwydiant ffilm y DU](#)

[Acting Up](#) – Ymchwiliad Llafur i fynediad ac amrywiaeth yn y celfyddydau perfformio

[Panic! Social Class, Taste and Inequalities in the Creative Industries](#)



# Ffilm

CYMRU WALES



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

**ARIENNIR GAN  
Y LOTERI  
LOTTERY FUNDED**



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government